# Hel meddyliau

**Onid braf byddai byw mewn sicrwydd** fod pob cam a wnelom ar y trywydd iawn? Mor annheg, mor aml, mai wedi cymryd y cam, os o gwbl, y daw modd i farnu'n wrthrychol. Yr un mor wŷr ydyw am Gynulliad, am felin wynt, am fwydydd GM. Neu am symud tŷ, newid swydd neu gynefin. Neu am lwybr feicio, uno enwadau. Hawdd gwneud penderfyniad, anos ei weithredu. Un peth yw llofnodi cytundeb Gwener y Groglith, peth arall yw ei wireddu. Ysbrydola un cam y cam nesaf; ys dywed Isaac Newton, *os gwelais ymhellach gwnes hynny wrth sefyll ar ysgwyddau'r mawrion*. Gall un cam grisialu degawdau o ymdrech, fod yn naid enfawr i ddynoliaeth. Weithiau ymddengys cam ymlaen i ni fel cam yn ôl i eraill. Gwaeth byth pan fydd penderfyniad gan eraill fel gwiriondeb i ni. Derbyniwn wahaniaeth barn a gwerthfawrogwn amrywiaeth, ond yn rhy aml daw anwybodaeth a rhagfarn diwylliant a iaith, crefydd a phrofiad rhyngddom hyd yn oed yn Nyffryn Clwyd. Wrth weddïo am heddwch, cymer yr Iddew dri cham yn ôl er mwyn i'w wrthwynebydd gael egluro, er mwyn pwyllo a gweld y sefyllfa yn ei gwir oleuni. Creu cyfle i drafod a meddwl.

**Bodola llecyn o'r fath i ni bob un.** Man cyfarwydd lle dreiddia rhyw ddedwyddwch, rhyw gysondeb cadarnhaol a gynnig cyfle i hel meddyliau. I mi, saif y llecyn hwn ym mhen uchaf Cwm Tawe ar *hewl Trecastell* ym moelni Bannau Brycheiniog. Ar benwythnosau'r haf, gwelir yno gadwyn ddisglair o geir yn swatio'n braf rhwng yr heol gul a'r afon

Tawe, sydd heb fod llawer lletach, a lifa ochr yn ochr â hi. Bodlon yw'r mwyafrif yno i ymdrochi yn y dŵr neu i dorheulio ar y glannau. Dena'r nentydd sy'n rhedeg i'r afon y mwy mentrus i'w canlyn i fyny at Lyn y Fan Fawr, tarddle'r afon, ar yr ochr orllewinol. Mwynheais yno oriau aneirif o londer a chyflawnder o'm mhlentyndod, a bellach gyda'm mhlant i fy hun.

**Oes gwacter yn eich bywyd?** Fel petai'r ystyr, y blas a'r rinwedd wedi diflannu? Oes mieri lle bu mawredd? Y mae ar ben arnom ... am ddwy flynedd arall! Ymadawodd yr hen gyfeilles Euro2000 a llosga'r hiraeth amdani a minnau'n unig bellach ym mrig yr hwyr. Bûm yn ei chwmni am ychydig wythnosau yn unig, ond erys atgofion ein perthynas am oes. P'un ai'n bencampwriaeth Ewropïaidd neu Gwpan Byd, drama Shakespearaidd yw pob achlysur yn llawn lliw, y llon a'r lleddf, gorfoledd a siomedigaeth, breuddwyd a hunllef. Pob un gêm o ddau hanner yn ôl y gwybodusion, nid mater o fywyd a marwolaeth ... mae'n bwysicach na hynny. Ambell gêm mor arwyddocaol, coeliwch, haedda sylw sawl sianel deledu ar yr un pryd! A sut i ymdopi â'r dyddiau i ddod heb ganllaw Gary a'i griw? Sut i lenwi'r agendor a chodi'r iselder? Gwae ni! Ond beth yw hyn? Wimbledon wedi dechrau, bore gwyn y tymor peldroed newydd o fewn cyrraedd a'r Gêmau Olympaidd ar y gorwel. Haleliwia! Gwyn ein byd!